Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2016 Rhif 414 (Cy. 132)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Gorchymyn Cod Gwasanaethau Cymdeithasol (Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol) (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2016

Gwnaed - - - - 21 Mawrth 2016

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 146(4)(b) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cod Gwasanaethau Cymdeithasol (Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol) (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2016.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y diwrnod penodedig

2. Y diwrnod penodedig i'r cod ymarfer ar rôl y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ddod i rym o dan Ran 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y gosodwyd copi o ddrafft ohono gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2016 ac a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru ar 16 Mawrth 2016) yw 6 Ebrill 2016.

Mark Drakeford
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

21 Mawrth 2016

(**1**) 2014 dccc 4.

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn penodi 6 Ebrill 2016 fel y diwrnod y daw'r cod ymarfer ar rôl y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol i rym. Dyroddwyd y cod hwn gan Weinidogion Cymru o dan adran 145(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") ar 16 Mawrth 2016.

Mae'r cod yn cynnwys gofynion a chanllawiau mewn perthynas â rôl y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, fel y'i penodir gan awdurdod lleol o dan adran 144(1) o Ddeddf 2014. Mae'r cod hefyd yn pennu'r cymwyseddau sydd i gael eu dangos gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol at ddibenion adran 144(2) o Ddeddf 2014.

Mae adran 145(3) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd wedi eu cynnwys mewn cod a ddyroddwyd o dan adran 145(1) a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd wedi eu cynnwys ynddo.